

YMFUDO O FLAENAU GWENT

Cyfnod o fudo mewnol ac o ymfudo oedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Tyrrai cannoedd o Gymry o gefn gwlad i chwilio am waith a bywyd gwell, gobeithient, yng nghymoedd Morgannwg a Gwent, ond pan ddaeth dirwasgiad yn y gweithfeydd dur a'r pyllau glo yn eu tro, penderfynodd llawer fynd i chwilio am 'Man gwyn man draw' mewn gwledydd estron. Gogledd America oedd dewis y mwyafrif, ond yn y flwyddyn 1865 trodd carfan fach o Gymry eu golygon tua De America a Phatagonia. Dyma arolwg bras ar hanes rhai o'r arloeswyr hynny o ardal Blaenau Gwent a aeth i Batagonia.

JAMES BERRY RHYS

Ganwyd James Berry Rhys yn Rhymni tua 1842, ond dywed Abraham Matthews mai o Ffestiniog y teithiodd i ymuno â mintai'r Mimosa yn Lerpwl. Yr oedd yn 23 mlwydd oed ac yn ddi-briod, ond ar 3 Gorffennaf 1868 priodwyd James Berry Rhys a Grace Roberts o Fethesda yng Nglan Camwy gan y Parch. Abraham Matthews. Eu cartref cyntaf oedd tyddyn o'r enw Dolantur, ac yna symudasant i Rhysfod. Ganwyd iddynt Tudfyl (1869 -72), Myfyr (1871) Rhun (1873), Ellen (1877), Llewelyn (1879), Tydfyl (1875) a Gwilym (1880). Bu James Berry Rhys yn Llywydd Cyngor y Wladfa a gwelir ei lofnod ar nifer o lythyron pwyllgor gweinyddol y Wladfa. Pan laniodd mintai'r Lucerne yn 1875, aeth i groesawu hen ffrind, Thomas Pugh, a chan fod y ddau ohonynt yn seiri maen ac adeiladwyr, bu'r ddau yn cyd-adeiladu nifer o dai ar hyd y dyffryn. Yr oedd James Berry Rhys eisoes wedi adeiladu'r ysgol gyntaf, oedd hefyd yn gapel, yng Nglyn Du ger Rawson rhwng 1873 a 1874. Lluniodd Lewis Jones alarnad ar farwolaeth James Berry Rhys, 'Vy Ngalarnad am Berry Rhys. 22 Medi, 1883' (LIGC 12202A).

Ar y Mimosa, hefyd, y teithiodd

JAMES DAVIES (IAGO DAFYDD, IAGO MAWRFRYN)

Ar restr Abraham Matthews dywedir mai o Frynman yr oedd, ond a barnu oddi wrth ei enw barddol, fel y dangosodd Elvey MacDonald, un o Frynmawr mae'n debyg oedd y llanc deunaw mlwydd oed. Nid pawb yng Nghymru oedd o blaid yr ymfudo i Batagonia, a chafwyd llythyron yn y wasg Gymreig yn dilorni'r fenter. Mewn ymateb i hyn, cyhoeddwyd rhai o'r llythyron a anfonwyd gartref at deulu a ffrindiau, ac roedd llythyr James Davies dyddiedig 8 Tachwedd 1865 at ei gyfaill H. Evans (Tobit), Hirwaun, ymysg y rhai a gyhoeddwyd yn *Llythyrau a ddaethant o'r sefydlwyr*. Ar ôl nodi ei fod yn 'iach – yn iach iawn' dywed

'Tebyg genyf mai hanes y wlad y buom yn siarad cymaint a'n gilydd yn ei chylch tua'r Brynmawr er's llawer dydd fydd yn fwyaf derbyniol genyt ...' cyn mynd ymlaen i roi disgrifiadau cryno dan y penawdau 'Dyffryn y Chupat', 'Y Rhoddion', a'r 'Fintai'.

Er gwaethaf ei fywyd iach, bu farw James Davies ym mis Chwefror 1868; aeth ar goll ar y paith yn ystod taith o Fadryn i'r Dyffryn, a daeth ei geffyl adref hebdo. Ni chanfuwyd ei weddillion.

Y mae'r teulu nesaf wedi cyfrannu llawer at fywyd diwylliannol, cymdeithasol ac addysgol y Wladfa:

TEULU DAVID STEPHEN JONES

Ganwyd David yng Ngheredigion yn y flwyddyn 1850 yn ail fab i Stephen Jones, brodor o ardal Llanddwibrefi, a Sarah ei wraig. Pan oedd David tua deng mlwydd oed, symudodd y teulu i Rymni, lle bu Stephen yn 'Iron miner' a David yn löwr. Bu farw Sarah yn 1870 ac anfonwyd cais at y teulu yng Ngheredigion am i un ohonynt ddod i edrych ar ôl y cartref. Yr un a ddaeth oedd Mary Jones, tua 22 mlwydd oed, merch Benjamin Jones, Gwynfil Hall, a'i wraig gyntaf Marianne Rowland, disgynydd uniongyrchol i'r Parch. Daniel Rowland. Rhaid crybwyll yma am frawd Mary, David Benjamin Jones a gafodd ei eni yn Llangeitho ar 9 Awst 1844 ond a adawodd ei fro enedigol am Ferthyr, ac yna Tredegar, cyn ymsefydlu yn Rhymni a phriodi Mary Ann Jones. Mab cyntaf David Benjamin a Mary Ann oedd yr enwog Thomas Jones CH, Ysgrifennydd y *Cabinet* i'r Prif weinidogion Lloyd George, Bonar Law, Stanley Baldwin, a Ramsey Macdonald, athro prifysgol, gwas sifil, gweinyddwr ac awdur, sefydlydd Coleg Harlech a'r cylchgrawn Welsh Outlook.

Cafodd David Stephen ddamwain yn y pwll glo a phenderfynu nad oedd am barhau yn löwr. Priododd David a Mary yn Swyddfa Cofrestru Bedwellte ar 29 Mawrth 1875 ac ychydig wedyn dyma nhw'n hwylio i'r Wladfa. Yn nes ymlaen aeth dwy chwaer David Stephen, Margaret a Mary, hefyd i'r Wladfa, priodi a magu teuluoedd yno. Bu David a Mary yn byw ar fferm David Jones, Maes Comet, cyn symud i fyny'r dyffryn o Rawson a dewis fferm a gafodd yr enw Rhymni. Yn nes ymlaen, symud eto i fferm a alwyd yn Twyn Carno ar ôl y rhan o Rymni lle bu'r teulu'n byw.

Yr oedd David Stephen Jones, Twyn Carno, yn ffigwr amlwg iawn ym mywyd y Wladfa, ac yn enwedig ymhlith amaethwyr y dyffryn. Dewiswyd ef yn un o dri aelod y comisiwn a fu'n ymweld â De'r Affrig ar ran y Wladfa pan oedd y Gwladfawyr yn sôn am symud yno. Galwyd am ei wasanaeth eto pan ddaeth galw am gynrychiolydd o'r dyffryn i ymweld ag Awstralia parthed sicrhau marchnad i'r had alffalffa. Brwydrodd yn galed a di-ildio am oddeutu hanner can mlynedd i helpu a hyrwyddo pob symudiad o bwys yn y Wladfa. Ar dir Rhymni, mewn pabell, y cynhaliwyd nifer o Eisteddfodau Trelew yn y 1930au.

Ganwyd pedwar o blant i David Stephen a Mary ac er i Cyllyn, Meillionen a Benjamin farw'n fabanod, cafodd y mab hynaf, Aeron fyw bywyd hir a llewyrchus yn ffermio yn y Wladfa. Bu David Stephen Jones farw yn y flwyddyn 1935 yn 85 mlwydd oed, a Mary ar 5 Awst 1939 yn 88.

Priododd Aeron mab David Stephen a Mary Jones ag Ellen, merch David a Rachel Jones, Maes Comet.

TEULU DAVID JONES, MAES COMET

Un o Geredigion yn wreiddiol oedd y David hwn, hefyd, ac os ydych chi am wybod mwy am y teulu, darllenwch hunangofiant Elvey MacDonald, *Llwch*. Yn fras, ganed David ar 10 Gorffennaf 1852 ym Mlaen Tir, plwyf Llangoedmor, yn fab i David Jones, Teiliwr, ac Elinor (gynt Evans). Symudodd y teulu i Flaenporth ac yna i Lwydcoed, Aberdâr. Yn dilyn marwolaeth y tad yn 1859 yn 33 mlwydd oed, priododd Elinor w'r gweddw o'r enw Thomas Davies, ac yn fuan wedyn ymfudodd Thomas, Elinor a phlant y ddwy briodas, gan gynnwys David, i'r Wladfa ar y Mimosa. Bu

David yn byw gyda’i fam a’i lys-dad yn ardal Drofa Dulog am gyfnod cyn cael ei fferm ei hun a enwyd yn Maes Comet ar ôl ei farch diledryw.

Priododd David Jones gyda Rachel, merch hynaf Rhys Williams ac Elizabeth Morgan, a chawsant ddeg o blant.

RHYS WILLIAMS AC ELIZABETH MORGAN, CEFN GWYN

Dywedir bod Rhys o Nant-y-glo ac Elizabeth o Fryn-mawr, ond mewn erthygl coffa i’w hwyres Ellen Jones, dywedir bod Rhys ac Elizabeth yn dod yn wreiddiol o Geinewydd, Ceredigion. Beth bynnag am hynny, priododd y ddau toc cyn gadael Nant-y-glo gyda charfan Thomas Benbow Phillips i sefydlu gwladychfa Gymreig a Chymraeg ym Mrasil. Buont yn byw yn Rio Grande do Sul ond pan brofodd y fenter honno’n fethiant, penderfynasant deithio i lawr i’r Wladfa ar lannau’r Camwy. Methwyd ar y cychwyn â theithio ymhellach na Patagones a dechreusant sefydlu yng nghyffiniau’r Afon Ddu, ond llwyddwyd o’r diwedd i gyrraedd y Wladfa ac ymsefydlu mewn tyddyn a ddaeth i’w adnabod wrth yr enw Cefn Gwyn. Mewn erthygl ‘Dechrau achos y Methodistiaid yn Chubut’ gan Mrs Evan Roberts, Parc y Llyn, mae enwau Rhys Williams, Cefn Gwyn, a’i wraig ymhlith ffyddloniaid yr achos o’r cychwyn. Yr oedd Mrs Williams yn hynod am ei duwioldeb a gweithiodd yn galed dros gael yr eglwys yn Nhrelew. Doedd Rhys ddim yn mynychu’r cyfarfodydd yn gyson am ei fod yn drwm iawn ei glyw ‘ond yr oedd yn Gristion cywir’.

TEULU AERON AC ELLEN JONES

Ganwyd pedwar o blant i Aeron ac Ellen, Clydwyn ap Aeron Jones, Meillionen, Meilyr Gwyn a Dewi Mefin ond bu farw Meilyr Gwyn yn ddyflwydd oed. Ganwyd Meillionen ar 10 Tachwedd 1910, priododd William Edward Davies a magu dwy o ferched, Elen Meriel a Vilda Norma, cyn marw ar 1 Tachwedd 2007 yn 97 mlwydd oed. Canodd Robin Gwyndaf gerdd goffa iddi a ymddangosodd yn rhifyn haf 2008 o’r *Drafod*.

Disgrifiwyd Clydwyn ap Aeron Jones, a anwyd ar 17 Mehefin 1913, fel un o blant disglair Y Wladfa, cerddor blaenllaw, un o ‘anwyliaid y Wladfa ac un o’i chewri’. Treuliodd ei fywyd ym myd cerddoriaeth, a bu wrthi’n cyfansoddi tan y diwedd. Bu’n arweinydd côr unedig Chubut ac roedd bob amser yn barod i roi help llaw i gorau’r ardal. Roedd ef a’i frawd Dewi Mefin, ymlith ysgogwyr yr ymgyrch i ailsefydlu Gorsedd y Wladfa, ac ef oedd ei Llywydd Anrhydeddus. Bu Clydwyn farw ar 12 Ionawr 2008. Enillodd Iris Lloyd de Spannaus y wobwr gyntaf yn Eisteddfod Mimosa 2008 am ei cherdd goffa i Clydwyn, ‘el Maestro de Musica’.

Ymddangosodd erthygl goffa gan Edith MacDonald yn rhifyn Gaeaf 2008 o’r *Drafod* lle dywedodd fod Clydwyn ‘yn geidwad ffyddlon i bopeth oedd yn ymwneud â’r diwylliant Cymreig’. Gwnaeth drefniant o emynau a thonau ac o weithiau cerddorol o’r Ariannin, Sbaen a Mecsico. Enillodd ysgoloriaeth yn 1950 i astudio cerddoriaeth yn Trinity College, Llundain, a daeth yn aelod o Orsedd y Beirdd y cyfnod hwnnw. Bu’n beirniad yn Eisteddfod Genedlaethol 1967; ysgrifennodd lyfr ar hanes y delyn a chafodd ei gadeirio yn Eisteddfod yr Andes, Trevelin, am ei gerdd ‘Ffydd, Gobaith, Cariad’.

Cyw ola’r nyth, a dreuliodd ei yrfa ym myd addysg, yw Dewi Mefin. Bu’n Brifathro Ysgol William Morris, Dolavon, yn Athro Daearyddiaeth yn Ysgol Camwy ac yna yn dysgu nifer o bynciau ym Mhrifysgol Trelew. Yn ddirprwy Llywydd yr

Orsedd, gwasanaethodd yn y seremoni ar y maen llog ac ar lwyfan yr Eisteddfod gyda Clydwyn. Dewi Mefin oedd yn cynrychioli Cymry'r Byd yn Eisteddfod Genedlaethol Tyddewi yn y flwyddyn 2002. Mae'n briod ag Eileen James a magwyd eu dau blentyn, Sandra a Martin, ar aelwyd Gymraeg ei hiaith.

Daw hyn â ni at gysylltiad pellach â Blaenau Gwent gan fod Lizzie Elen, mam Eileen James de Jones a'i chwaer Vali James d'Irianni, yn ferch i Elizabeth Evans o Dredegar a'i hail ŵr Owen Roberts.

TEULU THOMAS AC ELIZABETH EVANS, TREDEGAR

Daeth Thomas ac Elizabeth Evans i'r Wladfa yn y flwyddyn 1881. Roedd Elizabeth yn ferch i Sarah Thomas a Charles Lewis, ac yn 1871 roedd Charles, Sarah a'u plant Morgan, Elizabeth, Sophia, Christina, Mair a David yn byw yn 17 River Row, Tredegar. Mab i Thomas Evans, 'Coal haulier' a brodor o Dredegar, a'i wraig Hannah, o Langrannog yn ôl y cyfrifiad, oedd Thomas Evans, gŵr Elizabeth. Adeg yr ymfudo, roedd ganddynt dri o blant – Thomas a ymfudodd i Ganada yn ugain mlwydd oed, Charles, hen lanc a ofalodd am y fferm yn y Wladfa, a Sophia, a briododd a magu plant yn y Wladfa. Yr oedd y teulu'n byw yn ardal Bethesda, a phan fu Thomas farw, priododd Elizabeth ag Owen Roberts, gŵr gweddw gyda dau fab, Harri a Mymbyr, oedd yn wreiddiol o Dreborth, sir Gaernarfon. Ganwyd pedwar o blant i Elizabeth ac Owen; bu'r hynaf, Annie Grace yn athrawes fawr ei pharch, ac yn ail wraig y Prifathro E. T. Edmunds. Eu mab nhw, Geraint, ap Iorwerth Edmunds sydd bellach yn Llywydd yr Orsedd.

Ar gyfrifiad 1911 roedd Annie Grace Roberts, 'granddaughter, Visitor 13 born Chubut, Argentina' gyda'i mam-gu Sarah a'i modryb ddi-briod Annie, Ysgolfeistres, yn Windsor Villa, Tredegar. Plant eraill Owen ac Elizabeth oedd Margaret; Christiannah a briododd Gordon Roberts; a Lizzie Elen briododd Richard Morgan James.

TEULU ENOCH DAVIES

Ymysg teithwyr y Vesta yr oedd Enoch Davies a'i deulu o Dredegar – ei wraig Catherine, a'r plant Jane, 12, William Enoch, 11, Morgan Rees, 7, Solomon, 5 a Mary Eliza llai na blwydd oed. Ar gyfrifiad 1881 roeddent yn byw yn 145 Vale Terrace, Tredegar. Arhosodd y mab hynaf, Evan, yng Nghymru a bu'n byw yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Priododd William Enoch gyda Jane, merch Dafydd Hughes a Catherine Davies ei wraig, a ganwyd iddynt David, Owen, Margaret, Elizabeth a Mary. Bu Catherine farw ar 27 Mai 1906 yn 66 mlwydd oed ac Enoch Davies ar 3 Rhagfyr 1915. Bu William Enoch Davies farw yn 1949 yng nghartref ei ferch a'i fab yng nghyfraith, Jane a Henry Leopold Hayes yn Comodoro Rivadavia.

THOMAS AC ANN PUGH, MORIAH

Mab i Thomas Pugh, yn wreiddiol o Gilcenin, ac Elizabeth ei wraig o Lanbedr Pont Steffan oedd Thomas Pugh o Rhymni a ymfudodd gyda'i wraig Ann (o bosib Ann Richards a briododd ŵr o'r enw Thomas Pugh yn Ardal Cofrestru Bedwellte yn chwarter Rhagfyr 1866) i'r Wladfa o Ogledd America gyda'r ail fintai yn y sgwner Lucerne yn 1875. Er iddo ef ag Ann cael 5 o blant, bu farw 4 ohonynt yn yr Unol Daleithiau, gan adael ond Dafydd T. Puw. Ganwyd mab, Arthur ar y fordaith i'r de a phedwar o blant yn y Wladfa. Yn yr ysgrif goffa amdano dywedir ei fod yn

adnabyddus drwy'r sefydliad yn rhinwedd ei alwedigaeth fel saer maen ac adeiladydd; gyda'i hen ffrind James Berry Rhys, adeiladodd nifer o dai yn y Dyffryn. Roedd yn gymeriad ffyddlon, gonest a charedig, cymydog parod ei gymwynas. Roedd yn hoff iawn o sôn am Rhymni a'i phobl a byddai wrth ei fodd yn dod o hyd i rywun fedrai roddi unrhyw hanes am ei hen ffrindiau yno. Bu Thomas yn aelod ffyddlon a gweithgar yn Eglwys Moriah am ryw 25 mlynedd, ond am y chwe blynedd olaf o'i fywyd perthynai i Eglwys Tabernacle, Trelew. Bu farw yn ei gartref yn ardal Moriah 9 Medi yn 78 mlwydd oed. Roedd Ann wedi marw ar 20 Mai 1921. Amdani fe ddywed ysgrif goffa yn Y Drafod ei bod yn ddynes ddiwyll, selog ac ymdrechgar, yn neilltuo! o garedig a chymwynasgar.

TEULU GUILFORD

Ganwyd John Guilford yn ardal Maesteg ond cafodd ei wraig Margaret Thomas ei geni yn Rhymni yn y flwyddyn 1849, yn ferch i Thomas Thomas 'Refiner of Iron' a anwyd yn Llandeilo, a Mary Eynon, oedd yn wreiddiol o Drellidiart sir Benfro. Priododd Margaret a John Guilford ym 1875 ac ymfudo i'r Wladfa yn 1881, gan ymsefydlu yn gyntaf yn ardal y Gaiman cyn symud yn 1887 i ardal Tir Halen. Ganwyd deg o blant iddynt. Collwyd eu cartref cyntaf i'r llif ond aethpwyd ati i adeiladu'r ail dyddyn yn ymyl adfeilion y cyntaf. Disgrifiwyd Margaret fel optimist, bob amser yn siriol a llawen. Bu'n gwasanaethu ei bro fel bydwraig pan nad oedd meddyg ar gael, ac er na chafodd lawer o fanteision addysgol, roedd yn hoff iawn o ddarllen. Perthynai i enwad y Bedyddwyr ond ymunai mewn addoliad gydag enwadau eraill ac roedd yn aelod o eglwys anenwadol Tir Halen. Bu farw ar 9 Mehefin 1925.

TEULU COSLETT THOMAS

O sir Gaerfyrddin yr hanai y rhan fwyaf o deulu Coslett Thomas, ond mae'r cysylltiad â Blaenau Gwent a'r Wladfa yn dod trwy David Coslett Thomas a'i wraig Eleanor Thomas. Ganwyd eu mab William yn 1861 yn Nhwyn Carno, Rhymni, John yn 1863 yn Rhymni, Mary Ann yn Nhredegar ac Evan, Catherine ac Elizabeth yn y Rhondda. Ymfudodd y teulu yn 1875 ar y llong Thames, a ganwyd Sara Jane a Joseph yn Chubut. Yn ei hunangofiant mae John Coslett Thomas yn adrodd hanes am y Parch. D. S. Davies yn traddodi darlith ar Batagonia yng nghapel Ebenezer, Tonypany, a Dafydd Coslett yn ei wahodd i swper yn ei gartref. Y noson honno penderfynodd Dafydd ac Elinor y byddent yn mynd i Batagonia, a chwaer Eleanor a'i gŵr Evan Oliver gyda nhw. Cyn mynd prynwyd llestri llaeth ar gyfer godro, crymanau, pladur, aradr, oged, gêr ar gyfer gwedd a melin law i falu yd, offer saer ac offer adeiladu, a stoc o ddillad. Yn y Wladfa roedd ganddynt fferm yn Nhair Helygen ger Rawson, ac yn nes ymlaen aethant i fyw yn Nhrelew a chadw gwesty bach. Priododd Mary Ann â Hugh Samuel Pugh, magu 13 o blant a chadw'r casa de te cyntaf yn Gaiman ac wedyn gwesty. Mae hanes am yr Arlywydd Roca, yn ystod ei ymweliad â'r diriogaeth yn 1899, yn cael ei gymryd i'r hotel am ginio, a Roca a'i westeion niferus yn gwledda ar 10 plwm pwdin. Arhosodd William, Evan, Sara a Catherine yn y Wladfa; aeth John i Ganada a marw yn Los Angeles, Elizabeth a Joseph i Awstralia. Aeth William Coslett Thomas i fyny i'r Andes tua 1884, a bu'n gynorthwy mawr i ddatblygu'r lle.

Bu David Coslett Thomas farw yn 1923 yn 87 mlwydd oed, ac Eleanor ym mis Chwefror 1918.

DAVID T. EVANS

Un arall y dywedir iddo fod yn frodor o Dredegar oedd David T Evans, fu farw 15 Tachwedd 1926 yn 65 mlwydd oed. Mewn teyrnged iddo yn *Y Drafod* sonnir am ‘ei barodrwydd ewyllysgar i wneud ei hun yn ddefnyddiol yn ol ei allu’.

Y TEULU PRICE

Er mai ym Medlinog ym Morgannwg yr oedd y teulu'n byw cyn ymfudo i'r Wladfa, roedd y fam, Jane, yn chwaer i Mary Jones, gwraig David Stephen Jones, a David Benjamin Jones. Roedd ei gŵr, Thomas Price, yn un o ddisgynyddion uniongyrchol John Penry. Ymfudodd William Price, y mab, tua 1904. Ganwyd Mary A. Price ym Medlinog yn 1882, ac mae'n amlwg ei bod yn ferch ddeallus gan iddi ennill ysgoloriaeth i fynd i Ysgol Ganolraddol Pontlotyn ac wedyn pasio Ysgoloriaeth y Brenin. Yn fuan wedyn daeth yn ddisgybl-athrawes yn Ysgol Ganolraddol Bedlinog, ac roedd â'i bryd ar fynd i'r brifysgol ond torrodd ei hiechyd a chynghorodd y meddygon iddi adael Cymru am hinsawdd gynhesach a mwy tymherus. Gwahoddwyd hi gan ei hewyrth a'i modryb, David Stephen a Mary Jones, Twyn Carno, i fynd allan i Batagonia, ac aeth yno tua 1902. Bu'n gweithio'n ddyfal i'r Cwmni Dyfrhau am flynyddoedd ac roedd iddi ran amlwg yng ngwaith y Gymdeithas Ddiwylliadol. Cymerai ddiddordeb ym mywyd y Wladfa yn gyffredinol, yn grefyddol, yn llenyddol, yn fasnachol ac addysgol. Bu farw yn Nhwyn Carno ar 3 Rhagfyr 1929 yn 47 mlwydd oed. Priododd ei brawd William gyda Louisa Maud merch Robert Taylor, Trimley; bu William farw ar 12 Medi 1915 a Louisa Maud ym mis Rhagfyr 1921 yn 37 mlwydd oed, gan adael pedwar o blant amddifad.

**Eirionedd Baskerville
Diwygiwyd Awst 2011**